**Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) ar gyfer**
**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (2022-2037)**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 15) (Diwygio 2015).**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) wedi paratoi'r dogfennau'n amlinellu'r cynigion cyn-adneuo ar gyfer y cynllun a nodir uchod. Unwaith y bydd yn cael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037 yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2006-2021 presennol, gan ddod yn sail i bob penderfyniad cynllunio o ran defnydd tir yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor yn gwahodd sylwadau ar y dogfennau cynigion cyn-adneuo, sy'n amlinellu'r Weledigaeth, Opsiynau Twf a Gofodol, y Strategaeth a Ffefrir, a Pholisïau Strategol ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Gwahoddir sylwadau hefyd ar y Safleoedd Ymgeisiol a restrir yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, a gyflwynwyd yn ystod y broses Galw am Safleoedd Ymgeisiol/Posibl. Mae dogfennau eraill a gyhoeddwyd yn cynnwys yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a chyfres o Bapurau Sylfaen Tystiolaeth Gefndir.

Mae’r Strategaeth a Ffefrir a’r dogfennau cefndir ar gael i’w gweld ar wefan y Cyngor, yma:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/RevisedLocalDevelopmentPlan20222037/PreferredStrategyConsultation.aspx

Yn ogystal, mae copïau o’r dogfennau ar gael i’w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn y lleoliadau canlynol:

2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd
Llyfrgell Abercynon
Llyfrgell/Canolfan IBobUn Aberdâr
Llyfrgell Pentre'r Eglwys
Llyfrgell Glynrhedynog
Llyfrgell Hirwaun
Llyfrgell Llantrisant
Llyfrgell/Canolfan IBobUn Aberpennar
Llyfrgell Pont-y-clun
Llyfrgell Pontypridd (Llys Cadwyn)
Canolfan IBobUn/Llyfrgell Plasa'r Porth
Llyfrgell Rhydfelen
Llyfrgell Tonypandy
Llyfrgell/Canolfan IBobUn Treorci

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg am 8 wythnos o 09:00 ar Ddydd Mercher 21 Chewfror 2024 ac yn dod i ben ar 17 Ebrill 2024. O'r herwydd, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Sylwadau (sylwadau) yw 23:55 ar 17 Ebrill 2024.

Mae'r Cyngor yn eich annog i gyflwyno sylwadau'n electronig drwy'r porth ymgynghori ar-lein, ar dudalen ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir, sydd ar gael ar y dudalen we uchod.

Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn sylwadau drwy'r post a thrwy e-bost. Mae modd gwneud cais am ffurflenni sylwadau gan y Cyngor a'u dychwelyd iddo drwy e-bost: cdll@rctcbc.gov.uk neu eu postio i:

Tîm Polisi Cynllunio, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH.

Bydd sylwadau y bernir eu bod wedi'u gwneud a'u cyflwyno o fewn y cyfnod ymgynghori a nodir uchod, yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn ffurfiol wrth baratoi'r CDLlD Adneuol.

Mae modd cynnwys cais, gyda'ch sylwadau, i gyfeiriad penodol, i gael gwybod pan mae'r CDLlD wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n annibynnol a phan mae'r cynllun wedi'i fabwysiadu.

Dim ond sylwadau a wneir yn unol â'r hysbysiad yma y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu hystyried.

Fydd yr arolygydd annibynnol sy'n cynnal yr archwiliad yn gyhoeddus ddim yn ystyried sylwadau a wnaed yn ystod y cam cyn-adneuo yma. Bydd cyfle pellach i gyflwyno sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad Adnau. Ystyrir y sylwadau a wneir yn ystod cam Adneuo'r ymgynghoriad yn unig gan yr Arolygydd yn ystod y cam Archwilio.

Mae rhagor o wybodaeth am broses y CDLlD a'r holl ddogfennau cefndir perthnasol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.